

# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar - nos Iau, 5ed o Fedi, 2019 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Aled Davies (Is-gadeirydd), Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, Trefor Wyn Jones, Aled Lloyd Evans, Thomas Prys Jones, Angela Williams, Darren Morley a'r Clerc.

### 1.Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Margaret Griffith, Tegid Jones, Naomi Jones, Gareth O. Davies, Sion Aled Jones, a Ceri Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 4ydd o Orffennaf 2019.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Gorffennaf 2019 gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. **Datgan buddiant personol** – datganwyd buddiant personol gan y Cyngorydd Aled Lloyd Evans yn rhif 7 (c) ar C19/0733/41/LL tir yng nghefn Tafarn Madryn, Chwilog. Mae yn ewythr i'r ymgeisydd, ac felly'n perthyn.

6. Cyngor Gwynedd.

### 7. Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned

a) Cais Rhif C19/0636/41/LL – **Tyn y Morfa**, Llanystumdwy - dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad deulawr - - **gwrthod** oherwydd **"ei fod yn anghymesur o ystyried y lleoliad"**.

b) Cais Rhif C19/0664/41/RC – **Gwyndy, Fferm Mur Cursto, Llanybi** - cais i dynnu cytundeb adran 106 defnydd gwyliau. - Fe dderbyniwyd y sylwadau isod ar y cais yma:- sef pryder os bydd dileu Cymal 106 i fod ar unrhyw dai gwyliau, yna dylid gwahaniaethu'n gadarnhaol o blaid hyn os yw'r lle yn addas i'w ddefnyddio fel cartref parhaol i aelod/au o genhedlaeth iau, perchennog lleol y prif breswylfa. Datganwyd hefyd y farn, oherwydd nad yw'r cynllun datblygu lleol yn caniatáu fawr o ddatblygu tai yng nghefn gwlad, byddai cael un uned ychwanegol hefo teulu ifanc yn byw ynddo, fod o gymorth i'r teulu/cymuned a'r ardal - **Cefnogi'r cais ar ol cymryd sylw o'r materion uchod.**

c) Cais Rhif C19/0733/41/LL – Tir yng nghefn **Tafarn Madryn**, Chwilog - cais i newid amod 1 o C14/0061/41/AM ac amod 1 o C18/0249/41/MG, er mwyn ymestyn cyfnod cychwyn y gwaith, newid gosodiad a dyluniad y tai bwriedig ynghyd a'r cyfran o unedau fforddiadwy yn y Cytundeb 106.

-. (Wedi cael caniatad gan yr Adran Cynllunio i ymestyn y dyddiad er mwyn ei drafod ar noson y cyfarfod). **Cefnogi**

d) Cais Rhif C19/0775/41/LL – **Melin Plas Du**, Y Ffor -cais i ymestyn iard ar gyfer storio a thrin gwastraff a gosod offer didoli – Gorsaf trosglwyddo gwastraff.  
**Cefnogi**.

**8. Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru-** Ymgynghoriad gan Llywodraeth Cymru - dyddiad yr ymgynghoriad yma yn cau ar 16.09.2019, ac mae cyfle i bawb roi eich barn ar y 'linc' a anfonwyd atynt ddiwedd Gorffennaf. Derbyn.

**9. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

**Postyn giat llwybr troed** ochr Llanystumdwy gyferbyn ag Abercin wedi syrthio – wedi cael ei drwsio erbyn hyn.

**10. Gwasanaeth bws drwy Llanystumdwy** - wedi cael trethdalwyr yn cwyno am wasanaeth bysiau sydd yn rhedeg trwy Lanystumdwy. Ar fwy nag un achlysur nid yw'r bws yn troi fyny o gwbl. Y Clerc wedi cysylltu efo'r Cydlynnydd Cludiant, Cyngor Gwynedd i holi be ydi'r rheswm am hyn, ac wedi derbyn yr ateb canlynol.  
*"Diolch am eich neges parthed gwasanaeth bws 3/3B – dw i'n cymryd yn ganiataol eich bod yn cyfeirio at Arriva.*

*Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei weithredu ar ran yr Awdurdod, ond rydym yn ymwybodol fod problemau yn bodoli. Mae swyddogion o Bus Users Cymru yn monitro eu gwasanaethau ar hyn o bryd. Mi wnaf adrodd am y problemau i'r cwmni. Pan nad ydy bws yn troi fyny neu ddim yn stopio i godi teithwyr, mae'n bwysig eu bod yn cofnodi amser, dyddiad a lleoliad er mwyn i'r cwmni ymchwilio i'r gwyn yn benodol. Fel arall, ymateb 'generic' y cawn gan eu bod yn cael trafferthion gyda gyrrwyr ayyb.*

*Yn ychwanegol i hyn, rydym wedi derbyn y neges canlynol gan y cwmni – roeddwn am gylchredeg y neges i'r Cynghorau Cymuned yr wythnos yma.*

*"As always we are looking at improving the bus service for our customers. I would be grateful if you could communicate a message to your local members and community.*

*Due to the current climate operating buses is very difficult and the stats also shows a decline in usage. It is therefore paramount we operate the best service we can for our customers.*

*I would be grateful if you could ask the community for any suggestions regarding our services The reasons are for reliability and to improve the services for our loyal customers and hopefully new once in the future.*

*Please do not send me things like buses are late or not turning up etc (These can be dealt through our customer services).*

*Looking forward to hearing from you".*

Fe ofynwyd i'r Cynghorwyr wneud ymholiadau yn y gymuned, cyn y cyfarfod nesaf, i gael engreifftiau penodol o'r problemau, er mwyn i'r Clerc adrodd yn nol i'r Cydlynnydd Cludiant.

**Rhoslan/Ynys** - wedi derbyn gwybodaeth fod gwasanaeth bws yn bwriadau cynnal gwasanaeth i godi teithwyr yn Rhoslan o'r 27.08.19 ymlaen. **Derbyn**.

## Chwilog

### **Llwybr troed o Chwilog i Afonwen**

Clerc wedi derbyn ymateb gan Mr Dylan Jones, Rheolwr Uned Traffig, Cyngor Gwynedd, yn dweud ei fod yn atodi map o gynllun atodol,

*"sy'n dangos y bwriad o osod llwybr rhwng Chwilog hyd at y A497 (heibio Afonwen). Croesawn unrhyw sylwadau sydd gennych am y cynllun hon.*

*Fel sydd wedi ei nodi yn gynt, nid oes unrhyw arian ar gyfer ei adeiladu ar hyn o bryd, fodd bynnag, pan fyddwn yn ychwanegu ardal Chwilog ar ein mapiau Teithio Llesol yn 2020, fydd hyn yn agor mwy o gyfleoedd i'w datblygu'n bellach yn y dyfodol".*

Mae nifer fawr o enwau wedi llofnodi'r papurau cefnogi, dros 300 o enwau ac fe drefnir i'w anfon at Mr Dylan Jones, i ddangos faint o alw sydd am y llwybr ar ol ein cyfarfod nesaf. **Angen sylwadau ar y noson, am y cynllun sydd ar y map. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Dylan Jones, i holi beth oedd y "mapiau Teithio Llesol 2020", ac yna drefnu i anfon llythyr i ddatgan ein pryderon am y lon fel ag mae ar hyn o bryd, i ddangos ein bod yn gefnogol i'r cynllun, a throsglwyddo'r rhestr enwau ato.**

## **Pencaenewydd/Sardis**

**Giat fochyn newydd** - ar derfyn y waen y tu cefn i Gapel Pencaenewydd, a Tyddyn Uchaf - Mr Dewi Owen, Swyddog Hawliau Tramwy wedi trefnu i gyfarfod pwyllgor y Capel ganol fis Awst- **mae trefniadau ar y gweill i gael giat newydd.**

## **Llangybi**

Gwrych ar draws lon i Capel Helyg, ger Troed y Garn, Llangybi, - Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan yr Adran Priffyrdd, yn dweud ei bod wedi cysylltu hefo perchennog y gwrych, ac mae eisioes wedi cael ei dorri. **Derbyn**.

11. **Diogelu hen enwau lleoedd Cymraeg** - holi beth yw barn pawb, ac efallai gweld os oes trefn i'w ddilyn drwy'r Cyngor i gael yr hawl i newid enw? **Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at Miss Gwenllian Mair Williams, Cyngor Gwynedd i holi beth yw'r drefn.**

## **12. Materion Ariannol**

13. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Y Clerc yn nodi faint o arian sydd yn y tri cyfrif, gan ddangos cyfrifon 'excel' cyfredol, a'r dogfennau banc diweddaraf er mwyn cadw golwg ar y sefyllfa ariannol bob mis. Y Cadeirydd yn llofnodi copi o'r rhestr 'excel'.

Nid oes peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

14. **Praesept** - derbyn yr ail daliad o £7500.00 gan Cyngor Gwynedd.

15. **Treth ar werth** - y Clerc wedi hawlio swm TAW o £1054.31 yn nol am y flwyddyn 01.04.2018 -31.03.2019. **Derbyn**.

16. **Pared Dewi Sant** – cais wedi dod yn gofyn am gyfraniad tuag at yr orymdaith. **Gofynwyd i'r Clerc adael iddynt wybod y bydd y cais yn cael sylw fis Chwefror 2020, hefo gweddill y ceisiadau.**

17. **Archwiliad Ariannol Allannol** gan gwmni BDO – roedd y Clerc wedi wedi derbyn ebost ganddynt ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod, sef ar 03.09.19 yn gofyn y 6 cwestiwn canlynol. Bydd y Clerc yn ei ateb fel a ganlyn yn dilyn y cyfarfod. **Derbyn.**

Beth yw'r pwynt sydd heb ei ddatrys?	Beth sydd ei angen i ddatrys y mater?	Pam mae hyn yn angenrheidiol?
Nid yw'r dyddiad a chyfeirnod y cofnodion wedi eu darparu ar y datganiad llywodraethu blynyddol.	Mae angen i chi ddarparu'r cofnodion o'r cyfarfod lle cafodd y ffurflen flynyddol ei chymeradwyo.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo'n gywir. <i>Mae'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo yn ein cyfarfod blynyddol ar 02.05.2019. Pwynt 15. Maent i'w gweld ar ein gwefan, ac rwyf wedi atodi copi i chi hefo'r ebost yma.</i>
Mae'r blwch arian parod a buddsoddiadau tymor byr (blwch 9) wedi cael ei adael yn wag ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol. Ar gyfer y flwyddyn flaenorol roedd gennym ffigur o £24,730 ar ein cofnodion ac yn ôl cysoniad y banc y ffigur ar gyfer eleni yw £19,655.	Mae angen i chi gadarnhau a yw'r ffigurau yma'n gywir.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y ffigurau yn y datganiadau cyfrifo yn gywir. <i>Mae'n ddrwg gen i am hyn, fe ddylai blwch 9 ddangos:- £24,730 am 31.03.18 a £19,655 am 31.03.19.</i>
Nodwn fod costau staff wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.	Mae angen i chi ddarparu'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod lle cafodd y cynnydd yng nghyflog y staff ei gymeradwyo.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod hyn wedi cael ei gymeradwyo'n gywir. <i>Fe gafodd y costau staff ei cynyddu yn y Pwyllgor Amodau Gwaith a gynhaliwyd 08.05.18(3b), sef i godi'r oriau gwaith o 30 i 35 awr y mis. Gweler atodiad uchod.</i>
Nodaf eich bod yn cyfeirio at bwyllgorau yn y llythyr a ddarparwyd gennych ond doeddech chi ddim yn siŵr beth oedd 'cylch gorchwyl' yn ei feddwl. Y cylch gorchwyl yw'r polisïau ysgrifenedig sy'n rhoi manylion cyfrifoldebau a phwerau dirprwyedig y	Mae angen i chi ddarparu rhestr o'r holl bwyllgorau sydd gan y cyngor yn ogystal â'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y pwyllgorau'n dilyn y rheoliadau priodol. <i><b><u>Pwyllgor Amodau Gwaith</u></b> - ar gyfer penodi pethau fel Clerc newydd/newid cyflog. Mae 7 cynghorydd ar y pwyllgor. <b><u>Pwyllgor Safle'r We</u></b> - ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau i'r wefan</i>

<p>pwyllgorau.</p>		<p><i>Mae 4 cynghorydd ar y pwyllgor.</i>  <b><u>Pwyllgor Cynllun Busnes</u></b> - ar gyfer wneud penderfyniadau ynglyn a materion ariannol/rheoli gwariant/penodi praesept, cadw golwg ar wariant.  <i>Mae 5 cynghorydd ar y pwyllgor.</i>  <b><u>Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisiau ac Amodau Gwaith</u></b> - ar gyfer adnewyddu polisi o unrhyw fath fel bo angen.  <i>Mae 4 cynghorydd ar y pwyllgor yma.</i>  <i>Mae yna raglen a chofnodion yn cael ei cynnal ar gyfer pob pwyllgor a drefnir.</i>  <i>Gellir gweld pwynt 1-9 o'r Rheoliadau Sefydlog sy'n son am drefn ein cyfarfodydd ar ein gwefan.</i>  <i>Ni allaf weld fod unrhyw fanylion pellach ar gael, ond gallaf drefnu i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf os y dymunwch.</i></p>
<p>Mae'r gorchmynion sefydlog wedi cael eu darparu ond nid yw'r rheoliadau ariannol wedi cael eu darparu.</p>	<p>Mae angen i chi gadarnhau a yw'r cyngor wedi mabwysiadau rheoliadau ariannol ac anfon copi o hyn atom ni.</p>	<p>Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y cyngor yn dilyn y rheoliadau priodol.  <i>Mae ein rheolau ariannol wedi cael ei rhoi o fewn ein gorchmynion sefydlog. Mae rhain ar ein gwefan – gweler pwynt 29 – 33.</i>  <i>Rwyf wedi codi hyn yn ein cyfarfod diwethaf ar 05.09.19, a penderfynwyd fod angen darparu rheoliadau ariannol ar wahân, i'w dilyn a'i gosod ar ein gwefan.</i>  <i>Mae hyn yn mynd i gael ei wneud yn ystod y mis yma, ac yn mynd i gael ei trafod a'i cymeradwyo yn ein cyfarfod ddechrau Hydref 2019. Byddant wedyn yn cael ei rhoi ar ein gwefan.</i></p>
<p>Jones yw cyfenw'r archwilydd mewnol ac mae hyn yr un peth â rhai o'r cynghorwyr.</p>	<p>Dwi'n sylweddoli fod hwn yn enw cyffredin, ond mae angen i chi gadarnhau nad yw'r archwilydd mewnol yn perthyn i unrhyw un o'r</p>	<p>Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn annibynnol.  <i>Ms Luned Fon Jones yw'r archwilydd mewnol, sydd yn Rheolwr Archwilio</i></p>

	cyngorwyr.	<p>Uned Archwilio Mewnol, Cyllid  Cyfeiriad: Cyngor Gwynedd, Pencadlys –  Bloc A – Plas Llanwnda, Caernarfon,  LL55 1SE  Nid yw yn perthyn i unrhyw un  o'r cyngorwyr.</p>
--	------------	--

18. **Hysbysfwrdd** – disgwyl ymateb gan bwyllgorau y tri pentref, heblaw am Rhoslan, sef Llanystumdwy, Pencaenewydd, a Chwilog. **Roedd Pwyllgor Neuadd Chwilog yn trafod y mater yn ei Pwyllgor Blynyddol ymhen yr wythnos, disgwyl ymateb o Lanystumdwy a Phencaenewydd. Fe awgrymwyd fod y Clerc yn cysylltu hefo Mr John Williams, ynglyn â'r un yn Rhoslan.**

19. **Delwedd** – wedi gofyn os oedd y Cyngor eisiau prynu tystysgrif SSL ('secure sockets layer') ar gyfer ein gwefan.

Roeddent yn nodi:

- Os nad oeddem yn cael tystysgrif SSL byddai'n cael effaith negyddol ar berfformiad y wefan ar 'Gwgl'.
- Wrth bori drwy'r rhyngwrdd gan ddefnyddio 'Google Chrome' neu 'Firefox', fod gwefannau yn awr yn dangos "Diogel" neu "Ddim yn Ddiogel". Mae hyn yn ganlyniad o'r peiriannau chwilio yma yn ceisio gwneud y wé yn fwy diogel.
- Defnyddwyr yn ymddiried mwy yn ein gwefan.
- Gwell safle gyda pheiriannau chwilio, gan fod 'Gwgl' yn ffafrio safleoedd diogel.
- Lefel diogelwch cynyddol, yn enwedig gyda thaliadau diogel.
- Gwell diogelu rhag twyll, e.e. fel sgamiau "phishing".

Roedd Delwedd yn dweud ei bod nhw wedi cael tystysgrif SSL ar gyfer ei gwefan nhw oherwydd y rhesymau rhestrwyd uchod.

Mae ffi flynyddol o £47.99 ar gyfer y dystysgrif, gosodwyd y ffigwr yma gan y cwmni cynnal Os oes gennym ddiddordeb mewn cael y dystysgrif hon ar gyfer ein gwefan, mae angen cysylltu hefo Delwedd. **Penderfynwyd nad oedd y Cyngor angen y dystysgrif yma ar ei gwefan, oherwydd y rhesymau isod a gofynwyd i'r Clerc hysbysu Delwedd o hyn.**

- "Wrth chwilio am Cyngor Llanystumdwy ar bethau fel Gwgl nid oes llawer o gystadleuaeth efo gwefannau eraill, felly mae o dal ar dop y rhestr canlyniadau er ei fod o'n wefan http.
- Yn wahanol i wefan Delwedd, nid oes unrhyw gyfathrebu yn gallu digwydd ar wefan y Cyngor, boed yn ffurflen ar-lein neu'n daliad ar-lein. Felly nid yw'r dadleuon am "lefel diogelwch cynyddol" yn berthnasol i'r wefan ar hyn o bryd.
- Mae'n wir i ddweud fod gwefannau yn awr yn dangos "Diogel" neu "Ddim yn Ddiogel" wrth bori, ond ni fyddai'n debygol o stopio llawer o bobl rhag mynd ymlaen i bori'r wefan".

20. Clerc wedi trefnu i fynychu'r ddau gwrs isod, sydd yn cael ei gynnal yn yr Institiwt, Caernarfon, gan Un Llais Cymru. Mae am wneud cais am gyfraniad o'r bwrsari tuag at hanner y gost, ac fe wnaeth y Cadeirydd lofnodi'r ffurflenni ar y noson.

04.09.19	Modiwl 9 - Cod Ymddygiad
19.09.19	Modiwl 4 - Dealltwriaeth o'r Gyfraith

21. Anfonebau angen eu talu: drwy BACS.

Gyda chaniatad y Cadeirydd, fe gytunodd y Cynghorydd Trefor Jones a'r Clerc, y byddant yn mynychu Cynghadledd/Arddangosfa a Chyfarfod Blyneddol Un Llais Cymru ym Mhontrydfendigaid ar 05.10.19.

Cytunwyd y byddai'n iawn i'r Clerc wneud taliad o £180.00 (sef £90.00 yr un) i Un Llais Cymru drwy daliad BACS cyn y cyfarfod nesaf.

Cyflog mis Awst 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM-.

<b>Enw/Rheswm</b>	<b>Swm</b> £	<b>Cyfanswm Taliad net</b> £	<b>Taliad siec rhif:-</b>
Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.40	<b><u>290.55</u></b>	101133
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Awst 2019	362.95 x 20% = llai treth £72.40	<b><u>72.40</u></b>	101134
Costau'r Clerc Awst 2019	16.00	<b><u>16.00</u></b>	101135

It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.